

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

### Crynodeb o'r Weithdrefn

Nod y weithdrefn yw sicrhau fod gwybodaeth y bydd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) Gogledd Cymru yn cael cais amdani yn diwallu gofynion deddfwriaeth statudol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r arweiniad trefniadol a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae SCHTh Gogledd Cymru wedi mabwysiadu'r weithdrefn hon.

<b>Teitl:</b>	Gweithdrefn ymdrin â Cheisiadau am Wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Weithdrefn Adolygu Fewnol
<b>Perchennog y Polisi:</b>	Prif Weithredwr
<b>Awdur y Polisi:</b>	Swyddog Gweithredol
<b>Rhif y Polisi:</b>	7
<b>Dyddiad Cychwyn:</b>	01.09.2021
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	01.09.2025
<b>Fersiwn:</b>	3.0

### Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	2
2.	Gwneud cais am wybodaeth .....	2
3.	Cydnabod cais a darparu cymorth .....	3
4.	Y Broses o Wneud Penderfyniadau.....	3
5.	Cost .....	4
6.	Ceisiadau Blinderus .....	5
7.	Trosglwyddo Ceisiadau .....	5
8.	Adolygiad Mewnol .....	6

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

### Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

#### Gweithdrefn Ymdrin â Cheisiadau am Wybodaeth a'r Weithdrefn Adolygu Fewnol

#### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Yn ychwanegol at gael gwybodaeth safonol drwy wefan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (SCHTh), gall unigolion hefyd wneud cais am wybodaeth benodol ac mae'n rhaid i SCHTh ddelio â'r ceisiadau hyn yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl mynediad cyffredinol at ddeunydd 'cofnodedig' sy'n cael ei ddal gan awdurdodau cyhoeddus.
- 1.2 Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain ddefnyddio'u hawliau dan y Ddeddf Diogelu Data. Ni ellir rhyddhau gwybodaeth bersonol ynglŷn â phobl eraill gan y byddai gwneud hynny yn torri'r Ddeddf Diogelu Data. Mae gwybodaeth ar sut all ofyn am wybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Mynediad at Ddata gan y Testun.

#### 2. Gwneud cais am wybodaeth

- 2.1 Rhaid gwneud ceisiadau am wybodaeth yn ysgrifenedig i SCHTh, a gall hyn fod ar ffurf e-bost, ffacs neu neges drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â thrwy lythyr. Dylai'r cais gynnwys enw'r ymgeisydd, cyfeiriad ar gyfer dychwelyd y wybodaeth a disgrifiad o'r wybodaeth angenrheidiol.
- 2.2 Mae'n rhaid i gais am wybodaeth ddisgrifio'n glir pa wybodaeth y mae'r ymgeisydd yn gofyn amdani. Os nad yw'r disgrifiad yn ddigon manwl neu os nad yw'n ddigon clir, yna bydd SCHTh yn cysylltu â'r ymgeisydd i ofyn am ragor o wybodaeth er mwyn darganfod yn union pa wybodaeth sydd dan sylw. Dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mae dyletswydd i roi cymaint o gyngor a chymorth i'r ymgeisydd ag sy'n rhesymol. Nid oes dyletswydd ar SCHTh i gydymffurfio â'r cais hyd nes y ceir yr holl fanylion angenrheidiol (gweler hefyd baragraff 4.4.).
- 2.3 Er mwyn bod yn gais dilys dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth nid oes rhaid i geisiadau fod wedi'u hysgrifennu ar ffurflen arbennig, nid oes rhaid crybwyll y Ddeddf na chyfeirio at 'Ryddid Gwybodaeth' mewn unrhyw ffordd.
- 2.3 Bydd yr holl geisiadau'n cael eu cofnodi yn y Cofnod Dadleniadau Rhyddid Gwybodaeth (Atodiad D) er mwyn cynnal system rheoli cofnodion fanwl ac er mwyn cynorthwyo â gofynion monitro.

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

### 3. Cydnabod cais a darparu cymorth

3.1 Bydd SCHTh **yn ymateb cyn gynted â phosibl ond dim hwyrach nag 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais.** Dylai'r ateb ddweud a yw'r wybodaeth wedi'i chadw ai peidio a rhaid naill ai darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu egluro pam nad oes modd gwneud hynny.

3.2 Bydd yr holl ymatebion yn cael eu rhyddhau ar dempled penodol (Atodiad C) a'u cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ni fydd manylion yr ymgeisydd yn cael eu gwneud yn gyhoeddus.

### 4. Y Broses o Wneud Penderfyniadau

#### 4.1 Cyn Gwneud Penderfyniad

4.2 Pan dderbynnir ceisiadau cymhleth neu aneglur bydd SCHTh yn cysylltu â'r ymgeisydd i geisio darganfod yn union pa wybodaeth y maent yn gofyn amdani. Prif swyddogaeth y rhyngweithiad hwn yw darganfod yn union beth mae'r ymgeisydd yn dymuno ei gael a cheisio edrych ar y cyd ar opsiynau eraill a fydd yn ei gwneud yn haws iddynt adnabod a chael y wybodaeth angenrheidiol.

4.3 Er mai er ei les ei hun y byddai ymgeisydd yn darparu rhagor o wybodaeth i gynorthwyo'r SCHTh i ddelio â'u cais, nid oes unrhyw ddyletswydd gyfreithiol ar yr ymgeisydd i roi unrhyw wybodaeth ychwanegol.

4.4 Os gofynnwyd am eglurhad neu os yw SCHTh yn aros am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd, gellir 'stopio'r cloc' o ran y cyfyngiad amser i ymateb. Bydd y 'cloc' yn ailgychwyn ar unwaith pan dderbynnir yr eglurhad neu'r manylion y gofynnwyd amdanynt.

4.5 Unwaith y bydd y pwyntiau uchod wedi'u datrys yn llwyddiannus gall y gwaith o benderfynu ar ateb addas gychwyn.

#### 4.6 Dadlennu

4.7 Mae cadarnhau bod y swyddfa'n dal gwybodaeth yn ofyniad statudol (Adran 1(1) (a)) o'r Ddeddf) ac os cedwir gwybodaeth, rhaid rhoi'r wybodaeth honno (Adran 1(1) (b)).

4.8 Er y bydd y swyddfa'n gwneud pob ymdrech i fod mor dryloyw â phosibl o fewn y ddeddfwriaeth, mae rhai eithriadau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw (gweler Atodiad

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

A). Os nad oes modd darparu'r wybodaeth, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod pam ac ar sail pa eithriad y gwnaed y penderfyniad hwnnw.

- 4.9 Bydd yr ymgeisydd hefyd yn cael manylion ynghylch sut i wneud cais am adolygiad mewnol o'r penderfyniad (Atodiad B).
- 4.10 Bydd pob ymateb yn cael ei gyflwyno ar dempled penodol er mwyn sicrhau cysondeb (Atodiad C).

### 5. Cost

- 5.1 Os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng Nghynllun Cyhoeddi SCHTh, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd fod y wybodaeth honno ar gael ar y wefan. Ar gyfer y rhai hynny nad oes ganddynt fynediad i'r fewnrwyd, bydd SCHTh yn darparu copi caled o'r cyhoeddiad perthnasol yn rhad ac am ddim.
- 5.2 Bydd tâl o 15c y daflen yn cael ei godi am gopiâu o gyhoeddiadau, mwy nag un copi o allbrintiau o'r wefan neu am gopiâu o ddeunyddiau archif nad ydynt bellach ar gael. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y gost cyn i'r cais gael ei brosesu. Ni fydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno hyd nes y derbynnir y tâl. Bydd y terfyn amser ar gyfer cyflenwi'r wybodaeth yn cael ymestyn tra arhosir am y taliad. Os bydd yr ymgeisydd yn gwrthod talu'r ffi, ni chyflwynir y wybodaeth. Os nad yw'r ffi wedi'i thalu o fewn 3 mis, cymerir yn ganiataol nad yw'r ymgeisydd bellach yn dymuno cael y wybodaeth.
- 5.3 Os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am wybodaeth nad yw wedi'i chynnwys yng Nghynllun Cyhoeddi SCHTh, caniateir i'r Swyddfa (yn unol â'r arweiniad cenedlaethol) godi 10% o'r gost o gasglu a chynhyrchu'r wybodaeth, hyd at uchafswm o £55. Rhaid dweud wrth yr ymgeisydd am y gost cyn prosesu'r cais. Ni fydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno hyd nes y derbynnir y tâl. Bydd y terfyn amser ar gyfer cyflenwi'r wybodaeth yn cael ei ymestyn tra arhosir am y taliad. Os bydd yr ymgeisydd yn gwrthod talu'r ffi, ni chyflwynir y wybodaeth. Os nad yw'r ffi wedi'i thalu o fewn 3 mis, cymerir yn ganiataol nad yw'r ymgeisydd bellach yn dymuno cael y wybodaeth.
- 5.4 Gall ymgeiswyr ofyn bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ar wahanol fformatau, gwneud cais am archwilio cofnodion neu ofyn am grynoded o'r wybodaeth. Dan amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid i SCHTh ystyried beth fyddai cost cyflwyno'r wybodaeth ar y fformat perthnasol cyn cydymffurfio â'r cais.
- 5.5 Mae eithriad yn Adran 12 o'r ddeddfwriaeth sy'n nodi nad oes dyletswydd ar awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â chais am wybodaeth os amcangyfrifir y byddai'n yn costio mwy i wneud hynny na'r swm sydd wedi'i bennu yn y Rheoliadau Ffioedd fel yr uchafswm priodol, sef £450 yn achos gwasanaeth yr heddlu, sydd gyfwerth â 18 awr o waith.

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

5.6 Bydd SCHTh yn ystyried y pedair eitem isod wrth benderfynu a ddylid mynd dros y terfyn priodol ai peidio.

- Darganfod a yw'r wybodaeth wedi'i dal ai peidio
- Darganfod ymhle mae'r wybodaeth
- Cael gafael ar y wybodaeth, a
- Tynnu'r wybodaeth sydd i'w dadlennu allan o'r wybodaeth arall  
(Yn yr amcangyfrif o'r ffi ni ellir cynnwys yr amser a dreulir yn pennu pa wybodaeth sy'n wybodaeth eithriedig na'r amser a dreulir ar y broses o dynnu'r wybodaeth honno o'r wybodaeth arall)

### 6. Ceisiadau Blinderus

6.1 Gall SCHTh neilltuo'r hawl i wrthod unrhyw geisiadau blinderus neu ailadroddus.

6.2 Ystyrir fod y canlynol yn geisiadau blinderus, sef ceisiadau -

- sy'n cynnwys iaith ddifriol neu fygythiol
- sy'n rhoi baich ar yr awdurdod
- ag iddynt elfen o ddal dig personol
- sy'n ddi-baid
- sy'n cynnwys cyhuddiadau di-sail
- sy'n anhyblyg
- sy'n cael eu cyflwyno'n aml neu sy'n gorgyffwrdd
- sy'n cael eu cyflwyno gyda'r bwriad o achosi niwsans
- sydd wedi'u hanfon i sawl lleoliad ar unwaith yn y gobaith o gael ateb gan rywun
- sy'n golygu bod angen gwneud ymdrech anghymesur er mwyn ymateb iddynt
- lle nad oes unrhyw fwriad amlwg i gael gwybodaeth
- sy'n ddibwrpas neu'n wamal

6.3 Nod Adran 14 (1)(1) o'r Ddeddf yw caniatáu i awdurdod cyhoeddus wrthod ceisiadau blinderus.

### 7. Trosglwyddo Ceisiadau

7.1 Bydd unrhyw gais am wybodaeth nad yw ym meddiant SCHTh ond a allai fod ym meddiant awdurdod cyhoeddus arall yn cael ei anfon yn ôl at yrr ymgeisydd gan ddweud wrthynt ei bod yn debygol fod yr wybodaeth ar gael gan gorff arall ac yn awgrymu y dylent ail-gyflwyno eu cais i'r awdurdod cyhoeddus hwnnw. Dylid rhoi manylion cyswllt yr awdurdod perthnasol i'r ymgeisydd.

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

### 8. Adolygiad Mewnol

- 8.1 Os bydd ymgeiswyr yn anfodlon â'r ymateb i'w cais mae ganddynt hawl i wneud cais am adolygiad mewnol o'r penderfyniad (Atodiad B).
- 8.2 Rhaid cynnal Adolygiadau Mewnol yn brydlon gan anfon ymateb i'r ymgeisydd o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn y cais hwnnw.
- 8.3 Os, ar ôl adolygiad mewnol, y bydd SCHTh yn dal i wrthod y cais, gall yr ymgeisydd gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth a fydd yn penderfynu a gafodd y cais ei drin yn gywir ai peidio.

### 9. Gorfodaeth

- 9.1 Bydd yr ymgeisydd a SCHTh yn cael gwybod am benderfyniad y Comisiynydd Gwybodaeth mewn Hysbysiad o Benderfyniad. Ble bo hynny'n briodol bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn dweud wrth SCHTh pa gamau, os unrhyw rai, y bydd angen eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddeddf, a gall hyn gynnwys rhyddhau gwybodaeth. Gall yr ymgeisydd a SCHTh gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Gwybodaeth yn erbyn Hysbysiad o Benderfyniad.
- 9.2 Gall y Comisiynydd Gwybodaeth hefyd gyflwyno Hysbysiad Gorfodi i SCHTh yn datgan pa gamau y dylai eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddeddf. Gall SCHTh gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Gwybodaeth yn erbyn hysbysiad o'r fath.

### 10. Amserlenni - Crynodeb

- 10.1 Mae'r amserlenni canlynol yn berthnasol:

Ysbaid Rhesymol (ceisiadau wedi'u cyflwyno o'r blaen)	60 diwrnod gwaith
Eglurhad	Os na cheir yr eglurhad angenrheidiol, gellir cau'r cais ar ôl 20 diwrnod gwaith
Adolygiad Mewnol	20 diwrnod gwaith
Ymateb	20 diwrnod gwaith

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

Atodiad A

### Eithriadau Diamod ac Amodol

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn creu nifer o eithriadau sy'n caniatáu i Awdurdodau ddal yn ôl rhan o wybodaeth y gwnaeth aelod o'r cyhoedd gais amdani, neu ddal yr holl wybodaeth yn ôl, os yw'r wybodaeth honno yn cyd-fynd â thelerau un neu fwy o'r eithriadau hyn.

Mae eithriadau naill ai'n ddiamed neu'n amodol. Os yw eithriad diamed yn berthnasol, ni fydd unrhyw rwymedigaeth dan y Ddeddf i ystyried y cais am wybodaeth ymhellach. Mae eithriadau amodol yn desun y prawf budd cyhoeddus. Yn y ddau achos mae'n hollbwysig sicrhau y rhoddir ymateb llawn i'r ymgeisydd yn egluro'n glir pan na ellir darparu'r wybodaeth y gwnaethant gais amdani.

### Eithriadau amodol (eithriadau ble mae'r prawf budd cyhoeddus yn berthnasol):

Adran	Eithriadau	Math	Math
22	Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol	Amodol	Eithriad ar sail dosbarth
24	Diogelwch cenedlaethol	Amodol	Eithriad ar sail niwed
26	Amddiffyniad	Amodol	Eithriad ar sail niwed
27(1)	Perthnasau rhyngwladol	Amodol	Eithriad ar sail niwed
27(2)	Perthnasau rhyngwladol	Amodol	Eithriad ar sail dosbarth
28	Perthnasau o fewn y DU	Amodol	Eithriad ar sail niwed
29	Yr economi	Amodol	Eithriad ar sail niwed
30	Ymchwiliadau ac achosion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	Amodol	Eithriad ar sail dosbarth
31	Gorfodi'r gyfraith	Amodol	Eithriad ar sail niwed
33	Swyddogaethau archwilio	Amodol	Eithriad ar sail niwed
35	Llunio polisi llywodraethol	Amodol	Eithriad ar sail dosbarth
36	Gallai fod yn niweidiol o ran cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol	Amodol	Eithriad ar sail niwed posibl
37	Cyfathrebiadau â'r Frenhines ayyb	Amodol	Eithriad ar sail dosbarth
38	Iechyd a Diogelwch	Amodol	Eithriad ar sail niwed posibl
39	Gwybodaeth amgylcheddol	Amodol	Eithriad ar sail dosbarth
40	Gwybodaeth bersonol (ni all pobl gael mynediad i wybodaeth bersonol)	Diamod (rhannol)	Eithriad ar sail dosbarth

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures


	amdanynt eu hunain dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Ceir mynediad i wybodaeth o'r fath dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a RhDDC. Ni ellir rhyddhau data bersonol ynglŷn â phobl eraill pe bai hynny'n torri'r Ddeddf Diogelu Data)		
42	Braint Gyfreithiol Broffesiynol	Amodol	Eithriad ar sail dosbarth
43(1)	Buddiannau Masnachol	Amodol	Eithriad ar sail dosbarth
43(2)	Buddiannau Masnachol	Amodol	Eithriad ar sail niwed

Gallai gymryd hirach na'r 20 diwrnod a ganiateir ar gyfer ymateb i geisiadau i ystyried materion yn ymwneud â budd cyhoeddus. Yn yr achosion hyn rhaid i SCHTh roi amcangyfrif i'r ymgeisydd o fewn 20 diwrnod o pa bryd y disgwylir y bydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch budd cyhoeddus.

### Eithriadau Absoliwt (eithriadau lle nad yw'r prawf budd cyhoeddus yn berthnasol):

Adran	Eithriad	Math	Math
21	Yr ymgeisydd yn gallu cael y wybodaeth drwy ddull arall	Diamod	Eithriad ar sail dosbarth
23	Gwybodaeth a gyflenwir gan, neu'n ymwneud â, chyrrff sy'n ymdrin â materion diogelwch	Diamod	Eithriad ar sail dosbarth
32	Cofnodion Llys	Diamod	Eithriad ar sail dosbarth
34	Braint Seneddol	Diamod	Eithriad ar sail dosbarth
40	Gwybodaeth Bersonol	Diamod (yn rhannol)	Eithriad ar sail dosbarth
41	Gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol	Diamod	Eithriad ar sail dosbarth
44	Gwaharddiadau ar ddadlennu	Diamod	Eithriad ar sail dosbarth





### Rhyddid Gwybodaeth – y Drefn Adolygu

Os nad ydych yn fodlon ag ymateb Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i gais am wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gallwch anfon apêl ysgrifenedig at:

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd  
Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru  
Glan-y-Don  
Bae Colwyn  
Conwy LL29 8AW  
Neu trwy e-bost at: [OPCC@nthwales.pnn.police.uk](mailto:OPCC@nthwales.pnn.police.uk)

Bydd adolygiad mewnol yn cael ei gynnal a byddwn yn anelu at ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, os na allwn gwblhau'r adolygiad o fewn y cyfnod hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Os cafodd cais am wybodaeth sylw drwy'r dulliau arferol (e.e. recriwtio) ac y derbyniwyd cwyn wedi hynny, ni ymdrinnir â'r gŵyn honno dan brosesau Rhyddid Gwybodaeth. Dim ond os cafodd cais am wybodaeth ei brosesu fel cais Rhyddid Gwybodaeth swyddogol y defnyddir y broses gwyno hon.

Os penderfynwch ofyn am i adolygiad o'r fath gael ei gynnal, **ac os ydych yn parhau yn anfodlon wedi hynny**, yna mae gennych hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth ystyried eich cwyn.

#### **Manylion cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yw**

Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe house  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545700  
Ffacs: 01625 524510  
E-bost: [mail@ico.gsi.gov.uk](mailto:mail@ico.gsi.gov.uk)

### Freedom Of Information- Review Procedure.

If you are unhappy with a response to a request for information from the Office of the Police and Crime Commissioner made under the Freedom Of Information Act 2000 then you can make an appeal in writing to:

Office of the Police and Crime Commissioner  
North Wales Police Headquarters  
Glan y Don  
Colwyn Bay  
Conwy LL29 8AW  
or via email to: [OPCC@nthwales.pnn.police.uk](mailto:OPCC@nthwales.pnn.police.uk)

An internal review will be conducted and we will aim to respond within 20 working days. However, if we are unable to complete the review by this date, we will advise you accordingly.

Where a request for information was dealt with by normal methods of business delivery (e.g. recruitment) and a complaint is received, this will not be dealt with under the FOI complaints process. Only where the request has been processed as an official FOI request will this complaint process be utilised.

If you decide to ask for such a review to be undertaken and, **following this process, you are still dissatisfied**, you then have the right to direct your complaint to the Information Commissioner who will consider it.

#### **Contact details for the Information Commissioner**

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF  
Telephone: 01625 545700  
Fax: 01625 524510  
E-mail: [mail@ico.gsi.gov.uk](mailto:mail@ico.gsi.gov.uk)





Cyf: Blwyddyn/xx

Dyddiad y Cais:dd/mm/bbbb

**Ymateb i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth****Cais:****Ymateb:**

Mae'r wybodaeth hon wedi'i darparu mewn ymateb i gais o dan Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac mae'n gywir fel ar dd/mm/bbbb



Log Datgelu – Rhyddid Gwybodaeth  
Freedom of Information – Disclosure Log

Cyfeirnod Reference	Dyddiad Date	Teitl y Cais Request Title	Cais Dilys Valid Request	Eithriadau Exemptions	Math o Ymateb Response Type